Latest News
From The School of Welsh
Winter 2009 / Spring 2010
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Collaboration with Boomerang

The television company *Boomerang* has just sponsored three short videos that offer a taste of studying Welsh at Cardiff. They focus on three aspects – the School itself, life in the capital, and career opportunities for those graduating in Welsh.

The videos can be seen at:

http://www.caerdydd.ac.uk/welsh/aboutus/lifeincardiff/index.html

Boomerang's Chief Executive, Huw Eurig Davies, is himself one of our former students and he was eager to give something back to the School. If you are interested in sponsoring anything in the School of Welsh, from a scholarship to a lectureship, we would be very happy to hear from you!

Dafydd ap Gwilym and Postcolonialism

Congratulations to Angharad George, a tutor at the School of Welsh, who has successfully completed her PhD thesis on postcolonial approaches to the work of Dafydd ap Gwilym.

The study examines the relevance of postcolonialism as a way of interpreting Medieval Wales and as a medium to discuss the various cultural elements that appear in Dafydd ap Gwilym's work. The argument focuses on the process of 'creating' identity, and the discussion of postcolonialism and fourteenth century Wales is a basis for re-reading some of Dafydd's poetry.

Angharad followed a BA and MA course at the School before completing her PhD thesis. She currently teaches on the Welsh-language Sabbatical Scheme, and on both language and literature modules at the School.

Emyr Feddyg Scholarship

Llion Pryderi Roberts, Language Tutor at the School of Welsh, has been awarded the 2009 Emyr Feddyg Scholarship for the first chapter of his novel Llewych. This Scholarship, awarded by the National Eisteddfod, was established in order to provide mentoring for writers or poets whose work has not been published. Llion will complete the novel which deals with that eternal theme – time.

Michael D. Jones and his Welsh Colony

The National Eisteddfod at Bala in August saw the publication of a volume of essays on Michael D. Jones, one of Bala's most famous sons. He is best known as 'the father of the Welsh Colony' in Patagonia, but was also a key figure in the development of Welsh radical nationalism. Indeed, Professor Geraint H. Jenkins says that 'on the basis of the contents of this valuable and revealing volume, a powerful argument could be made to prove that he was the greatest Welshman of the Victorian era'.

The volume consists of eight chapters which discuss various aspects of the life and work of Michael D. Jones and place his ideal of a 'New Wales' overseas in its international and intellectual context. The book sheds much light on Welsh culture, religion and politics in the 19th century, and raises questions regarding language, identity, emigration and multiculturalism which are very relevant to our day.



© Gwasg Carreg Gwalch

The volume emanates from the activities of the Cardiff Centre for Welsh American Studies, which is located in the School of Welsh. Its editors are Dr E. Wyn James and Dr Bill Jones, co-Directors of the Centre.

The School of Welsh and Pobol y Cwm

This year the BBC's longest running soap opera celebrates its 35th birthday. For many years there has been a close association between the School and *Pobol y Cwm*, with scriptwriters Manon Rhys, T. James Jones and Dafydd Huws contributing to our undergraduate modules. After graduating, many of our students choose a career in the media and many make it to 'Cwmderi'. We recently met up with with two students who have worked on the programme for three years, Annes Wyn and Gwenllian Roberts:

What exactly is your role?

Annes: Script Editors for the soap *Pobol y Cwm*.

Can you tell us a little about your work?

Gwenllian: There are many different elements to our work. We help the producers and the story-writers to create nine weeks of story. We also work with the scriptwriters, drafting and writing scripts. Then, we work with the directors and the producers in order to ensure that the script reaches its full potential. We also rehearse the script with the actors and supervise the editing of the script during filming.

How has a degree in Welsh helped you in your career?

Gwenllian: The modules offered in the School of Welsh are excellent in terms of giving you a background and firm foundation in both language and literature. I took modules in 'Creative Writing' and 'Scriptwriting' because that was my main interest. But the work of dramatists such as Saunders Lewis was also important, as were the tales of the Mabinogion since the aim of a soap is to tell a good story. Having a degree in Welsh gives you credibility with employers. Without a degree in Welsh, I would not have secured this job, and so I would not have had an interview with *Eastenders*, nor read scripts for *Torchwood* and *Casualty*. The degree has certainly opened doors for me.

Annes: The wide range of modules offered by the School of Welsh was very appealing. 'Creative Writing' and 'Scriptwriting' reinforced my interest in that area and helped develop my skills. I stayed on at the School after graduating and took the MA in Welsh (Creative Writing route). My scriptwriting tutor was Manon Rhys who has written scripts for *Pobol y Cwm*, and she steered me in the right direction. Everything I learned about scriptwriting in the School of Welsh has helped me secure this job, as well as other opportunities such as a brief period working on the programme *Holby City*.

What advice do you have for someone who wishes to pursue a career in the media?

Annes: When people go to University I believe people who are creative shouldn't limit themselves to a vocational course. A subject like Welsh is very broad and leads to many possible career choices – sometimes people don't consider this.

Gwenllian: Choose a subject which appeals and that you enjoy, a subject that will give you a good foundation. You need a degree behind you to step on to the ladder but with a job in the media you will also need to learn and train on the job. The media evolves constantly and so you need to be flexible. My advice is to follow your instinct.

What are your plans for the future?

Annes: I would like to stay in the media and television, specifically in a light hearted soap like *Pobol y Cwm*.

Gwenllian: I would like to carry on enjoying my job and having fun. It's important to gain as many experiences as possible and develop my career to its full potential. Thanks to the School for motivating us.

Extra-curricular activities

One of the School's third year students will be appearing on the BBC Wales programme *Welsh Tenor* in the New Year. Sam Lloyd-Williams from Chepstow is a young tenor and a member of the National Youth Opera of Wales. A film crew followed him for a whole day, focussing on various aspects of his life including his academic work in the School of Welsh.

Sam is used to the limelight. He sings in medieval banquets at Cardiff Castle and Caldicot Castle and has also appeared in advertisements and numerous television programmes such as *Merlin*, *Casualty* and *Pobol y Cwm*. In the spring he will go on a short tour with the Welsh National Opera and participate in workshops for young people across Wales.

Awards and Scholarships

G.J. Williams Memorial Award

Congratulations to Ffion Pritchard and Caroline McManus from the first year and Elain Llwyd and Llŷr Gwyn Lewis from the final year who won the 2009 G.J. Williams Memorial Award. These scholarships are awarded to candidates who achieved the best performance of their year.

University Scholarships 2009

Congratulations to students who have won scholarships this year. The winners are:

Lowri Elen Edwards - Ysgol Gyfun Bro Myrddin
Ffion Lewis - Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Megan Williams - Ysgol y Preseli
Bethan Huws - Ysgol y Creuddyn
Elliw Mair - Ysgol Dyffryn Teifi
Rhys Griffiths - Ysgol Dyffryn Teifi
Rhydian Gwyn Lewis - Ysgol Syr Hugh Owen
Sioned Watkins - Ysgol Gyfun y Strade
Meinir Williams - Ysgol Gyfun Llangefni

Details of Scholarships for 2010 can be found on our website.

Fulbright Scholar visits School

In September 2009, Dr Sarah Campbell joined the School on a Fulbright Scholarship from the United States (Boston University). The Fulbright Scholarship aims to bring scholars from the United States and different countries and cultures together.

Sarah's field of research is medieval Welsh drama. She finds that medieval drama is remarkably real and honest, often in a gritty way; performed properly it can be an extremely powerful experience. The School's Drama Company will be performing one of the plays in the spring.

For further information, contact
School of Welsh, Cardiff University, Humanities Building, Colum Drive, Cardiff CF10 3EU
Phone: 029 2087 4843
E-mail: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Website: www.cf.ac.uk/welsh

Newyddion Diweddaraf

o Ysgol y Gymraeg

Gaeaf 2009
Gwanwyn 2010

Prifysgol Caerdydd
Cardiff University

Cydweithio â Boomerang

Mae cwmni teledu *Boomerang* newydd noddi tri fideo byr sy'n cynnig blas ar astudio'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Maent yn canolbwyntio ar dair agwedd wahanol – yr Ysgol ei hun, bywyd yn y brifddinas, a chyfleoedd o ran gyrfa i'r rheini sy'n graddio yn y Gymraeg.

Cewch weld y fideos ar:

http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/aboutus/lifeincardiff/index.html

Mae Prif Weithredwr *Boomerang*, Huw Eurig Davies, yn un o'n cyn-fyfyrwyr ac roedd yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r Ysgol. Os oes gennych ddiddordeb mewn noddi unrhyw beth yn Ysgol y Gymraeg, o ysgoloriaeth i ddarlithyddiaeth, byddem yn falch dros ben i glywed gennych!

Dafydd ap Gwilym ac ôl-drefedigaethedd

Llongyfarchiadau mawr i Angharad George, tiwtor yn Ysgol y Gymraeg, ar gwblhau ei thraethawd PhD yn llwyddiannus. Teitl y traethawd yw: 'Mwtlai wyd di'?: Ôl-drefedigaethedd, Cymru'r Oesoedd Canol a Dafydd ap Gwilym'.

Mae'r astudiaeth yn ymwneud â pherthnasedd ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli Cymru'r Oesoedd Canol ac fel cyfrwng i drafod yr elfennau diwylliannol amrywiol sy'n codi yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y broses o 'greu' hunaniaeth ac mae'r ymdriniaeth ag ôl-drefedigaethedd a Chymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn sail ar gyfer ailddarllen rhai o gerddi Dafydd yng ngoleuni dryswch diwylliannol ei oes.

Dilynodd Angharad gwrs BA ac MA yn y Gymraeg yn yr Ysgol cyn mynd ati i gwblhau'r traethawd PhD. Ar hyn o bryd mae'n dysgu ar y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ac ar fodiwlau iaith a llenyddiaeth yr Ysgol.

Ysgoloriaeth Emyr Feddyg

Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Emyr Feddyg 2009 i Llion Pryderi Roberts, Tiwtor Iaith yn Ysgol y Gymraeg, am bennod gyntaf ei nofel Llewych. Sefydlwyd yr Ysgoloriaeth hon gan Lys yr Eisteddfod Genedlaethol i hyfforddi llenor neu fardd na chyhoeddwyd cyfrol o'i waith eisoes. Bwriad Llion yw mynd ati i gwblhau'r nofel a fydd yn ymdrin â'r thema oesol honno – amser.

Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig

Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Bala cyhoeddwyd cyfrol o ysgrifau am un o feibion enwocaf y dref honno, Michael D. Jones. Y mae'n fwyaf adnabyddus fel 'tad y Wladfa' ym Mhatagonia, ond yr oedd hefyd yn ffigur allweddol yn natblygiad cenedlaetholdeb radicalaidd Cymraeg. Yn wir, yn ôl yr Athro Geraint H. Jenkins, 'Ar sail cynnwys y gyfrol werthfawr a dadlennol hon, gellid llunio dadl rymus i brofi mai ef oedd Cymro mwyaf oes Victoria.'

Mae'r wyth ysgrif yn y gyfrol yn cwmpasu gwahanol agweddau ar fywyd a gwaith Michael D. Jones ac yn gosod ei ddelfryd o 'Gymru Newydd' ar draws y môr yn ei chyd-destun rhyngwladol a syniadol. Mae'n taflu llawer o oleuni ar ddiwylliant, crefydd a gwleidyddiaeth Cymru yn y 19eg ganrif, ac yn codi cwestiynau ynghylch iaith, hunaniaeth, ymfudo ac amlddiwylliannedd sy'n berthnasol iawn i'r Gymru gyfoes.



© Gwasg Carreg Gwalch

Peth o ffrwyth gweithgarwch Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, a leolir yn Ysgol y Gymraeg, yw'r gyfrol, a chyd-Gyfarwyddwyr y Ganolfan, Dr E. Wyn James a Dr Bill Jones, yw ei golygyddion.

Ysgol y Gymraeg a Pobol y Cwm

Eleni mae opera sebon hynaf y BBC yn dathlu ei phen-blwydd yn 35 oed. Bu cysylltiad rhwng yr Ysgol a *Pobol y Cwm* ers blynyddoedd lawer, gyda'r sgriptwyr Manon Rhys, T. James Jones a Dafydd Huws yn cyfrannu at ein modiwlau israddedig. Wedi graddio, mae llawer o'n myfyrwyr yn dilyn gyrfa yn y cyfryngau a sawl un yn cyrraedd Cwmderi. Cawsom air â dwy sydd wedi bod yn gweithio ar y rhaglen ers tair blynedd bellach, Annes Wyn a Gwenllian Roberts:

Beth yn union yw eich swydd?

Annes: Golygyddion Sgript i'r rhaglen *Pobol y Cwm*.

Allwch chi sôn ychydig am eich swydd?

Gwenllian: Mae yna nifer o elfennau gwahanol i'n swydd. Rydym yn helpu'r cynhyrchwyr a'r storïwyr i greu naw wythnos o stori. Byddwn yn gweithio hefyd gyda'r sgriptwyr, yn braslunio ac yn ysgrifennu drafftiau o sgriptiau. Yna, byddwn yn gweithio gyda chyfarwyddwyr ynghyd â chynhyrchwyr er mwyn cyflawni llawn botensial y sgript. Rydym hefyd yn ymarfer y sgript gyda'r actorion ac yn golygu'r sgript yn ystod y broses o ffilmio.

Sut mae gradd yn y Gymraeg wedi'ch helpu yn eich gyrfa?

Gwenllian: Mae'r modiwlau a gynigir yn Ysgol y Gymraeg yn wych o ran rhoi cefndir a sylfaen gadarn ichi, yn ieithyddol ac yn llenyddol. Dilynais y modiwlau 'Ysgrifennu Creadigol' a 'Sgriptio' achos dyna oedd fy mhrif ddiddordeb. Ond roedd gwaith dramodwyr megis Saunders Lewis hefyd yn bwysig, ac astudio'r Mabinogion gan mai dweud stori dda yw pwrpas sebon yn y pen draw. Mae meddu ar radd yn y Gymraeg yn rhoi hygrededd ichi gyda chyflogwyr. Heb radd yn y Gymraeg, ni fuaswn wedi cael y swydd yma, ac felly ni fuaswn wedi cael cyfweliad gydag *Eastenders*, nac wedi darllen sgriptiau *Torchwood* a *Casualty*. Mae'r radd yn sicr wedi agor drysau i mi.

Annes: Roedd yr ystod eang o fodiwlau yr oedd Ysgol y Gymraeg yn ei gynnig yn apelio'n fawr. Atgyfnerthodd y modiwlau 'Ysgrifennu Creadigol' a 'Sgriptio' fy niddordeb yn y maes a meithrin fy sgiliau. Arhosais yn yr Ysgol ar ôl graddio a dilyn MA yn y Gymraeg (llwybr Ysgrifennu Creadigol). Fy nhiwtor sgriptio oedd Manon Rhys, sydd wedi ysgrifennu sgriptiau i *Pobol y Cwm*, ac fe'm rhoddodd ar ben ffordd. Mae popeth a ddysgais am sgriptio yn Ysgol y Gymraeg wedi fy helpu i gael y swydd hon, ynghyd â chyfleoedd eraill megis cyfnod byr yn gweithio ar y rhaglen *Holby City*.

Pa gyngor sydd gennych i rywun sydd am ddilyn gyrfa yn y cyfryngau?

Annes: Pan fydd pobl yn mynd i'r Brifysgol nid wyf yn credu y dylai pobl sy'n greadigol gyfyngu eu hunain yn ormodol i gwrs galwedigaethol. Mae pwnc fel y Gymraeg yn eang iawn ac yn agor llawer o ddrysau o ran gyrfa, ac weithiau nid yw pobl yn ystyried hynny.

Gwenllian: Dewiswch bwnc sy'n apelio, ac yr ydych yn ei fwynhau, pwnc a fydd yn rhoi sylfaen gadarn ichi. Mae angen gradd y tu ôl ichi er mwyn camu ar yr ysgol, ond gyda swydd yn y cyfryngau bydd yn rhaid ichi ddysgu a derbyn hyfforddiant wrth wneud y swydd hefyd. Mae'r cyfryngau yn esblygu drwy'r amser ac felly mae angen gallu addasu. Fy nghyngor i yw dilynwch eich greddf.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Annes: Hoffwn aros yn y cyfryngau a byd teledu, yn benodol mewn sebon hwyliog fel *Pobol y Cwm*.

Gwenllian: Rwyf am barhau i fwynhau fy swydd a chael hwyl. Mae'n bwysig ennill cymaint o brofiadau â phosibl a datblygu fy ngyrfa i'w lawn botensial. Diolch i'r Ysgol am ein hysgogi.

Gweithgareddau allgyrsiol

Bydd un o fyfyrwyr y drydedd flwyddyn yn ymddangos ar raglen BBC Cymru *Welsh Tenor* yn y flwyddyn newydd. Mae Sam Lloyd-Williams o Gas-gwent yn denor ifanc ac yn aelod o Opera Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Bu criw ffilmio yn ei ddilyn am ddiwrnod cyfan, yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar ei fywyd gan gynnwys ei waith academaidd yn Ysgol y Gymraeg.

Mae Sam yn hen gyfarwydd â'r sylw. Mae'n canu mewn gwleddoedd canoloesol yng Nghastell Caerdydd ac yng Nghastell Cil-y-coed; mae hefyd wedi ymddangos ar hysbysebion, ac mewn nifer o raglenni teledu megis *Casualty*, *Merlin*, a *Pobol y Cwm*. Yn y gwanwyn, bydd Sam yn mynd ar daith fer gydag Opera Cenedlaethol Cymru ac yn cyfrannu at weithdai ar gyfer ieuenctid ledled y wlad.

Gwobrau ac Ysgoloriaethau

Gwobr Goffa G.J. Williams 2009

Llongyfarchiadau mawr i Ffion Pritchard a Caroline McManus o'r flwyddyn gyntaf ac Elain Llwyd a Llŷr Gwyn Lewis o'r drydedd flwyddyn ar ennill Gwobr Goffa G.J. Williams 2009. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn i'r ymgeiswyr a berfformiodd orau yn eu blwyddyn.

Ysgoloriaethau'r Brifysgol 2009

Llongyfarchiadau i fyfyrwyr yr Ysgol a enillodd ysgoloriaethau o £3,000 yr un eleni:

Lowri Elen Edwards - Ysgol Gyfun Bro Myrddin
Ffion Lewis - Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Megan Williams - Ysgol y Preseli
Bethan Huws - Ysgol y Creuddyn
Elliw Mair - Ysgol Dyffryn Teifi
Rhys Griffiths - Ysgol Dyffryn Teifi
Rhydian Gwyn Lewis - Ysgol Syr Hugh Owen
Sioned Watkins - Ysgol Gyfun y Strade
Meinir Williams - Ysgol Gyfun Llangefni

Ceir manylion am Ysgoloriaethau 2010 ar ein gwefan.

Cymrawd Fulbright yn ymweld â'r Ysgol

Ym mis Medi 2009, daeth Dr Sarah Campbell atom o'r Unol Daleithiau (Prifysgol Boston) ar Ysgoloriaeth Fulbright. Nod yr Ysgoloriaeth Fulbright yw dod ag ysgolheigion o'r Unol Daleithiau a gwledydd a diwylliannau gwahanol ynghyd.

Maes ymchwil Sarah yw'r ddrama ganoloesol Gymraeg. Yn ei thyb hi mae dramâu canoloesol yn real ac yn onest, yn aml mewn ffordd feiddgar; o'u perfformio yn iawn gall y profiad o'u gweld fod yn un hynod bwerus. Bydd Cwmni Drama'r Ysgol yn perfformio un o'r dramâu yn y gwanwyn, mewn cydweithrediad â Sarah.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU
Ffôn: 029 2087 4843
E-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Gwefan: www.cf.ac.uk/cymraeg